

**CYMRY'R  
CARDIAU  
POST**  
gan  
**E.G. MILLWARD**



1



2



3

BU CRYN ddathlu ar 1 Medi 1994 ymysg casglwyr cardiau post oherwydd ar 1 Medi 1894 cafodd pobl gwledydd Prydain ganiatâd gan y Post Brenhinol haelfrydig i roi stamp dimai ar gerdyn post, ac yr oedd yn rhydd i gwmnïau preifat gynhyrchu eu cardiau eu hunain. Wedyn, yn 1902, caniatwyd neges yn ogystal â chyfeiriad ar y cefn, a dyma gardiau post o bob math dan haul yn dylifo o'r wasg. Prin fod angen dweud bod cardiau darluniadol, digrif (i fod), neu gardiau smala fel y byddech chi'r gogleddwyr yn dweud, ymhlith y rhai mwyaf poblogaidd ac y mae rhyw syniad gen i fod cardiau comic Cymreig ymhlith y rhai cyntaf, os nad y cyntaf oll.

Anelwyd llawer iawn o'r cardiau hyn at ymwelwyr o



4